TACTEG CYMRAEG

# CWESTIYNAU CWIS: Creu Deialog – Profwch eich hunain!

Mae defnyddio deialog yn ffordd dda i ddangos mwy am y cymeriad yn y stori. Mae'r darnau nesaf o ddeialog yn dangos mwy i ni am ymddangosiad, personoliaeth a gweithredoedd y cymeriad. Darllenwch y darn a dewiswch yr ateb cywir (cwestiynau 1-3).

1: "Rwyt ti'n edrych fel doli glwt," dywedodd Mam yn flin.

☐ Ymddangosiad

☐ Personoliaeth

☐ Gweithredoedd

2: "Dw i ar ben fy nigon yn chwarae gemau ar y cyfrifiadur," dywedodd Dafydd yn hapus.

☐ Ymddangosiad

☐ Personoliaeth

☐ Gweithredoedd

3: "Dilynwch fi yn dawel," sibrydodd rheolwr yr amgueddfa gan gerdded ar flaen ei draed at yr oriel.

☐ Ymddangosiad

☐ Personoliaeth

☐ Gweithredoedd


©BBC

4: Darllenwch y deialog nesaf. Mae'r atalnodi ar goll. Dewiswch unai coma (,), gofynnod (?) neu ebychnod (!) a’u rhoi yn y blychau priodol.

"Hoffet ti fynd i'r dref i siopa Ddydd Sadwrn ☐" gofynodd Mali yn eiddgar.

"Bydden i'n dwlu ond mae'n dibynnu ar hwyliau Mam ☐" atebodd Siwan yn benisel.

"Gwna dy waith cartref nos Wener a falle bydd gobaith 'da ti ☐" awgrymodd Mali.

5: Mae'n bwysig defnyddio amrywiaeth o ferfau i ddisgrifio'r ffordd mae person yn siarad e.e. bloeddiodd, sibrydodd, holodd. Darllenwch y darnau yma o ddeialog a dewiswch y berfau gorau (cwestiynau 5-7):

"Pawb yn dawel rwan!"............. Mr Ifans yn uchel.

- ☐ Bloeddiodd
- ☐ Sibrydodd
- ☐ Gofynnodd

6: "Mae Ifan wedi rhwygo ei drowsus yn y pen-ôl," ................ Dafydd

- ☐ Rhedodd
- ☐ Chwarddodd
- ☐ Holodd

7: "Pryd ydyn ni'n dathlu Diwrnod Santes Dwynwen?"................ Mrs Jones y plant.

- ☐ Gwaeddodd
- ☐ Holodd
- ☐ Nofiodd


©BBC

8: Darllenwch y darn nesaf o ddeialog. Mae'r adferfau sy'n disgrifio'r ferf ar goll. Dewiswch yr adferf mwyaf addas o'r rhestr isod i gwblhau'r darn.

**grac**
**groch**
**gynnil**
**ymbilgar**

"Dw i'n credu allwn ni wella'r stori tamaid bach," awgrymodd Rhian yn _______________ .

"Pam? Dw i wedi gwneud pob dim dw i'n gallu. Wir!" holodd Steffan yn _______________ .

"Na! Dyna fy mhenderfyniad ola'!" mynnodd Rhian yn _______________ .

"Dw i ddim yn mynd i wneud dim byd i ti byth eto! Rwyt ti wedi fy ngadael i lawr unwaith yn ormod y tro hwn!" gwaeddodd Steffan yn _______________ gan gau'r drws yn glep ar ei ôl.



©BBC

# ATEBION CWIS:
## Creu Deialog – Profwch eich hunain!

Mae defnyddio deialog yn ffordd dda i ddangos mwy am y cymeriad yn y stori. Mae'r darnau nesaf o ddeialog yn dangos mwy i ni am ymddangosiad, personoliaeth a gweithredoedd y cymeriad. Darllenwch y darn a dewiswch yr ateb cywir (cwestiynau 1-3).

1: "Rwyt ti'n edrych fel doli glwt," dywedodd Mam yn flin.

- ☑ Ymddangosiad
- ☐ Personoliaeth
- ☐ Gweithredoedd

2: "Dw i ar ben fy nigon yn chwarae gemau ar y cyfrifiadur," dywedodd Dafydd yn hapus.

- ☐ Ymddangosiad
- ☑ Personoliaeth
- ☐ Gweithredoedd

3: "Dilynwch fi yn dawel," sibrydodd rheolwr yr amgueddfa gan gerdded ar flaen ei draed at yr oriel.

- ☐ Ymddangosiad
- ☐ Personoliaeth
- ☑ Gweithredoedd


©BBC

4: Darllenwch y deialog nesaf. Mae'r atalnodi ar goll. Dewiswch unai coma (,), gofynnod (?) neu ebychnod (!) a’u rhoi yn y blychau priodol.

"Hoffet ti fynd i'r dref i siopa Ddydd Sadwrn [ ? ]" gofynnodd Mali yn eiddgar.

"Bydden i'n dwlu ond mae'n dibynnu ar hwyliau Mam [ ! ]" atebodd Siwan yn benisel.

"Gwna dy waith cartref nos Wener a falle bydd gobaith 'da ti [ , ]" awgrymodd Mali.

5: Mae'n bwysig defnyddio amrywiaeth o ferfau i ddisgrifio'r ffordd mae person yn siarad e.e. bloeddiodd, sibrydodd, holodd. Darllenwch y darnau yma o ddeialog a dewiswch y berfau gorau (cwestiynau 5-7):

"Pawb yn dawel rwan!"............. Mr Ifans yn uchel.

☑ Bloeddiodd

☐ Sibrydodd

☐ Gofynnodd

6: "Mae Ifan wedi rhwygo ei drowsus yn y pen-ôl," ................ Dafydd

☐ Rhedodd

☑ Chwarddodd

☐ Holodd

7: "Pryd ydyn ni'n dathlu Diwrnod Santes Dwynwen?"................ Mrs Jones y plant.

☐ Gwaeddodd

☑ Holodd

☐ Nofiodd



©BBC

8: Darllenwch y darn nesaf o ddeialog. Mae'r adferfau sy'n disgrifio'r ferf ar goll. Dewiswch yr adferf mwyaf addas o'r rhestr isod i gwblhau'r darn.

**grac**
**groch**
**gynnil**
**ymbilgar**

"Dw i'n credu allwn ni wella'r stori tamaid bach," awgrymodd Rhian yn **gynnil** .

"Pam? Dw i wedi gwneud pob dim dw i'n gallu. Wir!" holodd Steffan yn **ymbilgar** .

"Na! Dyna fy mhenderfyniad ola'!" mynnodd Rhian yn **grac** .

"Dw i ddim yn mynd i wneud dim byd i ti byth eto! Rwyt ti wedi fy ngadael i lawr unwaith yn ormod y tro hwn!" gwaeddodd Steffan yn **groch** gan gau'r drws yn glep ar ei ôl.


©BBC